**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**LLEIHAU TROSEDD A DIOGELWCH CYMUNEDOL**

**Diben**

1. Yn ei gyfarfod ar 27 Hydref ystyriodd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd bapur yn amlinellu gwahanol fentrau'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud â lleihau trosedd. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 1 Tachwedd, cytunwyd y dylid anfon copi o'r papur at aelodau'r pwyllgor hwnnw hefyd, a gwnaed hyn. Penderfynodd y Cadeirydd hefyd bennu amser ar gyfer trafod materion diogelwch cymunedol a lleihau trosedd. Diben y papur hwn yw sbarduno'r drafodaeth honno.

**Crynodeb**

2. Mae'r papur hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar brif ddarpariaethau Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a'r Rhaglen Lleihau Trosedd ers y tro diwethaf i'r rhain gael eu hystyried gan y Pwyllgor ar 10 Mai; safbwynt y Cynulliad; penodi Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd i Gymru a mentrau cysylltiedig y Cynulliad. Nid yw'n cynnwys materion sy'n ymwneud yn benodol â throseddwyr ifanc. Nid oes angen i'r aelodau weithredu na gwneud unrhyw benderfyniad.

**Amseru**

3. Cyflwynir y papur yn unol â chais y Cadeirydd am drafodaeth fuan.

**Cefndir**

***Cyflwyniad***

4. Er mai'r Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol yn statudol am drosedd ac anhrefn, mae Gwell Cymru'n nodi fel un o'i flaenoriaethau 'Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd'. Ym mis Hydref gofynnodd Prif Weinidog Cymru i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau gymryd cyfrifoldeb dros y maes yn y Cabinet. Nid yw cyfrifoldebau'r Gweinidog yn ymestyn i faterion gweithredol yr heddlu, sydd yn parhau gyda'r Swyddfa Gartref, nac i

droseddwyr ifanc, sydd yn gyfrifoldeb ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhannu'r portffolio lleihau trosedd/ troseddwyr ifanc yn destun gohebiaeth ar hyn o bryd rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidogion yn sgil dymuniad y Pwyllgor, yn ei gyfarfod diwethaf, y dylai'r ddau bwnc gael eu hystyried gan y Pwyllgor.

***Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998***

5. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yw conglfaen polisi'r Cynulliad ar fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn a chreu cymunedau mwy diogel. Yn ganolog i'r Ddeddf roedd creu'r partneriaethau lleihau trosedd ac anhrefn lleol newydd; roedd y Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb newydd ar yr awdurdodau lleol a'r heddlu fel partneriaid allweddol a fyddai'n cydweithio â'r gwasanaeth prawf, yr awdurdodau iechyd a phartneriaid eraill i ddatblygu strategaethau lleol i leihau trosedd ac anhrefn. Erbyn hyn, mae'r 22 strategaeth yng Nghymru yn cael eu rhoi ar waith, a byddant yn cael eu hadolygu yn 2002.

6. Mae'r Comisiwn Archwilio wedi ymweld â holl bartneriaethau Cymru eleni er mwyn asesu eu cynnydd hyd yma, ac awgrymu ffyrdd o gryfhau gwaith partneriaeth.

7. Bydd canllawiau a hyfforddiant ar ffurf seminarau ar gael i'r partneriaethau wrth iddynt agosáu at y cyfnod adolygu cyntaf. Bwriedir cynnal hyfforddiant ar ffurf seminar i'w helpu i wneud lleihau trosedd yn rhan ganolog o waith ledled eu sefydliadau yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf.

8. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer amrediad o ddulliau ymarferol eraill o fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn megis ymddygiad gwrth-gymdeithasol, gyda dau ohonynt wedi eu cadarnhau erbyn hyn yng Nghymru; triniaeth cyffuriau a gorchmynion profi sydd wedi bod yn destun cynllun peilot, gyda'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod y gwaith wedi bod yn llwyddiant; gorchmynion cyrffyw i blant a gorchmynion gwneud iawn ymysg eraill.

***Rhaglen Lleihau Trosedd***

9. Mae Rhaglen Lleihau Trosedd y Llywodraeth ar gyfer Cymru a Lloegr, a fydd yn costio cyfanswm o £400 miliwn dros 3 blynedd, yn buddsoddi mewn amrywiaeth o fentrau sy'n effeithio'n sylweddol ac yn barhaus ar y gyfradd droseddu. Mae £153 miliwn ar gael ar gyfer teledu cylch cyfyng (CCTV), ac mae £3 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer gosod CCTV ar ystadau tai cymdeithasol yng Nghymru. Hyd yma mae prosiectau Cymru wedi denu £5.6 miliwn o gyllid gan y rhaglen, sy'n cyfateb i tua 5% o'r cyllid a ddyrannwyd ar hyn o bryd; mae'r manylion ar gael yn **Atodiad A**. Mae tîm bach o swyddogion y Cynulliad yn derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref i reoli'r Rhaglen fel ei hasiant yng Nghymru. Maent yn cyfrannu at y meini prawf ar gyfer y gwahanol fentrau, maent yn rhan o'r broses ddethol ac yn monitro'r prosiectau.

10. Ar hyn o bryd mae Gweinidogion y Swyddfa Gartref yn ystyried ar ba ffurf y bydd cyllid ar

gyfer lleihau trosedd yn y dyfodol yng ngoleuni llwyddiant cyffredinol yr Adolygiad o Wariant eleni. Maent yn ystyried y posibilrwydd o roi mwy o rym yn lleol i benderfynu sut i ddefnyddio'r arian yng Nghymru a rhanbarthau Lloegr, a rhoi cyllidebau i'r Cyfarwyddwyr Lleihau Trosedd i ddatblygu partneriaethau.

***Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Cymru***

11. Mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu 10 Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd rhanbarthol ar gyfer Cymru a Lloegr i weithio'n agos iawn â'r partneriaethau lleol i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial a sicrhau eu bod yn anelu at dargedau rhesymol, ac yn gallu gwerthuso'u cynnydd. Yn ogystal â hyn, bydd David A'Herne, Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Cymru, a benodwyd ym mis Awst, yn gweithio'n agos â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Cynulliad cyfan i gynnwys materion trosedd ac anhrefn ym mholisïau'r Cynulliad. Yn sgil penodi'r Cyfarwyddwr, bydd cyllid ar gyfer aelodau ychwanegol o dîm sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar leihau trosedd, a bydd yr aelodau newydd yn dechrau yn eu swyddi fis nesaf.

12. Ers dechrau yn ei swydd, mae Mr A'Herne wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr allweddol sy'n gweithio ar leihau trosedd yng Nghymru yn yr awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a gwasanaeth y carchardai, a grwpiau barnwriaethol a chymunedol. Erbyn hyn, mae'n gweithio gyda'i dîm ar gynllun gweithredu i ddatblygu a chynnal y partneriaethau lleol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â mentrau'r Cynulliad. Rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad ar ei rôl yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 18 Hydref.

***Mentrau Cysylltiedig y Cynulliad Cenedlaethol***

13. Bydd y strategaethau lleol ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn yn ategu'r amrediad eang o fentrau sy'n cael eu hybu gan y Cynulliad i annog cynhwysiant cymdeithasol, ac yn yr un modd bydd y mentrau hyn yn ategu'r strategaethau lleol. Mae sawl un o fentrau'r Cynulliad wedi gwahodd ymgeiswyr i gynnwys dulliau o annog lleihau trosedd ac anhrefn ymysg eu cynigion, er enghraifft Cronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Aelodau wedi derbyn y papur, sy'n nodi mentrau perthnasol y Cynulliad, sy'n amrywio o hyfforddiant i bobl ifanc i dai.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

14. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn, a'i ddefnyddio fel canolbwynt ar gyfer y drafodaeth.

**Enw Cyswllt**

David A'Herne, yr Uned Lleihau Trosedd, est 0030.

**Atodiad A**

## RHAGLEN LLEIHAU TROSEDD:PROSIECTAU LLWYDDIANNUS YNG NGHYMRU

### Polisïau wedi'u Targedu

Grantiau i'r heddlu ar gyfer mannau nodedig am drosedd. Cymeradwywyd dau brosiect i Gymru o dan Rownd 1: £500k ar gyfer prosiect yn Rhondda Cynon Taf i leihau problemau trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghaerdydd. Mae'r ddau brosiect eisoes ar waith, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu eu bod eisoes yn cael effaith. O dan Gylch 2, mae un cynnig o Gymru gan Heddlu Gogledd Cymru i ariannu dull unedig o leihau trosedd mewn ystad ddiwydiannol fawr yn Wrecsam yn cael ei ystyried; os caiff ei gymeradwyo byddai'n denu grant o £188k.

### Lleihau Bwrglera

Yn y rownd gyntaf cymeradwywyd un cynnig i Gymru - £60k am brosiect yn Llaneirwg, Caerdydd. Cymeradwywyd pedwar prosiect o dan Rownd 2 – tri ar gyfer Gogledd Cymru yn denu £33k ac un ar gyfer Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr, yn denu £12k. Lansiwyd trydydd cylch ar 28 Ebrill ar sail rhaglen dreigl; mae'n hysbys bod rhai partneriaethau o Gymru'n datblygu ceisiadau.

### Gwaith Ymyriad mewn Ysgolion

Cymeradwywyd pum prosiect i Gymru i ofalu am 9 ysgol – arian o £1.06 miliwn gyda gwaith cefnogi i wella rheolaeth ysgolion ar ymddygiad disgyblion a lleihau bwlian, triwantiaeth a gwaharddiadau ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd, Abertyswg, Llanelli ac Abertawe. Mae'r prosiectau ar waith.

### CCTV

Cymeradwywyd grantiau o £2.6 miliwn i Gymru, gan gynnwys un dyfarniad o £1 miliwn i Ben-y-

bont ar Ogwr i wella ac ehangu eu darpariaeth yng nghanol y dref a darpariaeth i ofalu am 3 maes parcio a theithio a maes parcio i dwristiaid yn Rest Bay, Porthcawl. Mae cylch ariannu pellach yn cael ei redeg ar hyn o bryd. Bydd canolfannau trefol a dinesig yn parhau i gael blaenoriaeth, yn ogystal â meysydd parcio a chynlluniau tai cymdeithasol mewn ardaloedd trosedd uchel, ond mae'r cylch hwn yn derbyn hefyd y gallai pobl mewn ardaloedd o drosedd is ddymuno gosod CCTV fel ffordd i leihau ofn trosedd. Mae'n rhaid i geisiadau amlinellol gael eu derbyn erbyn 22 Rhagfyr; mae 4 cais oddi wrth bartneriaethau yng Nghymru wedi cael eu hystyried hyd yma, ond mae'n hysbys bod llawer mwy yn cael eu paratoi. Mae £2.6 miliwn ar gael hyd 2002 ar gyfer prosiectau sy'n darparu CCTV ar ystadau tai cymdeithasol yng Nghymru.

**Trais Domestig**

Mae deuddeg cais wedi dod i law gan grwpiau o Gymru gyda phrosiectau i leihau trais yn y cartref neu drais rhywiol gan droseddwyr hysbys. Cyhoeddwyd bod gwerth £6 miliwn o geisiadau wedi eu cymeradwyo ar 10 Gorffennaf gan gynnwys dau brosiect o Gymru ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr £21k a Rhondda Cynon Taf £11.7k

**Wardeiniaid Cymdogaethau**

Gwahoddwyd ceisiadau mewn perthynas â phrosiectau Wardeiniaid Cymdogaethau arfaethedig neu bresennol. Roedd cyfanswm o £4.5 miliwn o arian Rhaglen Lleihau Trosedd ar gael ar ei gyfer a chlustnodwyd £300k ar gyfer prosiectau yng Nghymru. Mae pum prosiect wedi eu cymeradwyo ar gyfer Merthyr Tudful, Abertawe, Caernarfon, Caerffili a Chaerdydd; mae'r cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu paratoi.

**On Track – Rhaglen Aml-Ymyriad**

Rhaglen lleihau trosedd aml-ymyriad yw 'On Track' sydd wedi'i thargedu at blant sydd mewn perygl o droseddu. Anelir y rhaglen at blant rhwng 4-11 oed a chaiff ei rhedeg am gyfnod o hyd at 7 mlynedd. Mae prosiectau'n derbyn cyllid o hyd at £400,000 ar gyfer pob un o'r 3 blynedd cyntaf a bydd yr arian yn lleihau'n raddol wedi hynny. Mae dau brosiect sef Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo i ddenu cyllid o dros £1 miliwn dros gyfnod y prosiectau.

**Cynnwys Pobl Ifanc**

Rhaglen gwerth £33 miliwn wedi'i hanelu at 40-50 o bobl ifanc ym mhob un o'r 200 o ystadau

gwaethaf yng Nghymru a Lloegr dros y 3 blynedd nesaf, gyda tharged terfynol o 400 mewn 5 mlynedd. Bydd yn adeiladu ar fodel ‘Youth Works’ sydd eisoes wedi’i brofi mewn cynllun peilot yn eithaf llwyddiannus yn Leeds, Blackburn a Sunderland. Mae’r model hwn yn sefydlu prosiectau Gwaith Ieuenctid ac yn dod ag adfywio, materion yr amgylchedd a lleihau trosedd ynghyd. Bydd Cymru’n cael cyfran o arian y Rhaglen Lleihau Trosedd a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae’r olaf eisoes yn cefnogi prosiect cynllun peilot yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful, ac mae Wrecsam a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn y broses o ddatblygu prosiectau. Elwodd y prosiectau hefyd o’r £2 filiwn o arian SPLASH oedd ar gael ar gyfer datblygu gweithgareddau i rwystro pobl rhag troseddu yn ystod gwyliau’r haf, ac ar gais y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, mae swyddogion y Cynulliad yn ddiweddar wedi awgrymu wardiau difreintiedig eraill yng Nghymru a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid SPLASH yn 2001.